PWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 6 HYDREF 2020

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Sattar, Asghar Ali, Derbyshire, Goddard, Hudson, Jacobsen, Lancaster, Dianne Rees, Robson a/ac Wood |

7 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim.

8 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

9 : COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

Is-bwyllgor Diogelu’r Cyhoedd - 3/3/2020
Pwyllgor Diogelu’r Cyhoedd - 15/7/2020
Is-bwyllgor Diogelu’r Cyhoedd - 1/9/2020

10 : DISODLI BTEC GYDA THYSTYSGRIF LEFEL 2 SQA

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Pwyllgor, yn ei gyfarfod ar 3 Tachwedd 2009, wedi cytuno'n gyntaf i gyflwyno gofyniad i bob ymgeisydd am Drwydded Gyrru Cerbyd Hacni/Llogi Preifat, nad ydynt wedi dal trwydded yn y deuddeg mis diwethaf, ddangos tystiolaeth o fod wedi cwblhau cymhwyster BTEC yn llwyddiannus mewn 'Cludo Teithwyr mewn Tacsis a Cherbydau a Llogi Preifat'.

Ar 8 Chwefror 2011, cytunodd Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd i ddisodli'r cymhwyster BTEC gyda chymhwyster achrededig BTEC newydd yn 'Cyflwyniad i Rôl y Gyrrwr Tacsi neu Gerbyd Llogi Preifat Proffesiynol'.

Darparwr presennol y cymhwyster BTEC, Pearson wedi dweud eu bod yn tynnu'r cymhwyster yn ôl. Y dyddiad prawf olaf fydd 31 Ionawr 2021 a'r dyddiad ardystio olaf fydd 28 Chwefror 2021. O ganlyniad i dynnu'r cymhwyster BTEC yn ôl, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi bod yn ymchwilio i gymwysterau amgen.

Darperir y cymhwyster y penderfynwyd ei fod fwyaf addas at anghenion yr Awdurdod Trwyddedu gan Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA) ac mae'n Dystysgrif Lefel 2 yn 'Cyflwyniad i Rôl y Gyrrwr Tacsis a Cherbydau Llogi Preifat Proffesiynol'

Mae SQA yn disgrifio'r cymhwyster fel un sy'n darparu *"dysgwyr â dealltwriaeth o ddeddfwriaeth gyfredol a gwasanaeth da i gwsmeriaid. Mae'n datblygu ac yn gwella'r ystod o sgiliau a thechnegau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i'r cyhoedd sy'n teithio"*.

I gael y cymhwyster, byddai'n rhaid i ddysgwyr gyflawni'r modiwlau canlynol:

- Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle
- Diogelwch Teithwyr Trafnidiaeth
- Gwasanaeth Cwsmer Proffesiynol
- Cynnal Diogelwch y Cerbyd Trwyddedig
- Cymorth Symudedd a Chadeiriau Olwyn
- Cynllunio Llwybrau a Thocynnau
- Bagiau a Pharseli Trafnidiaeth
- Cludo Plant Oedran Ysgol yn Ddiogel
- Y Rheoliadau Trwyddedu

Bydd y cymhwyster SQA hwn yn parhau i gynnwys elfennau allweddol sy'n angenrheidiol ar gyfer hyfforddi ymgeiswyr i gael trwydded ac mae ganddo'r fantais ychwanegol o gynnwys amddiffyn plant yn rhan o'r 'Modiwl Cludo Plant Oedran Ysgol yn Ddiogel'. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwybod am y mathau o weithgarwch anghyfreithlon y mae tramgwyddwyr yn eu defnyddio er boddhad personol neu enillion ariannol:
  - boddhad rhywiol
  - defnyddio pobl i gludo cyffuriau
- adnabod nodweddion cyffredin ymddygiad a hudo gan droseddwyr
- Disgrifio effaith camfanteisio ar blentyn oedran ysgol
- Deall pwysigrwydd Codau Ymddygiad a gwerthoedd sy'n sail i hawliau plant oedran ysgol
- Disgrifio sut y gellir cysylltu neu atgyfeirio os oes angen cymorth ar blentyn oedran ysgol yn sgil cam-drin drwy gyffwrdd neu heb gyffwrdd

Er bod y cymhwyster hwn wedi bod ar gael ers 2011, cafodd y cynnwys ei adnewyddu yn 2018. Roedd hyn yn cwmpasu newidiadau i'r Ddeddf Cydraddoldeb, yn cynyddu dirwyon a chosbau, systemau dosbarthu cwmwl a mwy o bwyslais ar ddiogelu plant oedran ysgol.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi ymgynghori â darparwyr hyfforddiant lleol hysbys ynghyd â Chymdeithas Cerbydau Hacni Caerdydd ar y cynnig i fabwysiadu Tystysgrif Lefel 2 SQA yn 'Cyflwyniad i Rôl y Gyrrwr Tacsis a Cherbydau Llogi Preifat Proffesiynol'.

Cafwyd tri ymateb mewn perthynas â'r ymgynghoriad ac roedd pob un ohonynt o blaid y cymhwyster SQA arfaethedig.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau:

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau am yr asesiad, ac a oedd angen pasio pob modiwl, os oedd cwestiynau amlddewis, ailsefyll ac ati. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod gyrwyr yn mynd drwy un uned ar y tro, 1 diwrnod yr wythnos dros 3 wythnos, yna maent yn sefyll arholiad ar-lein. Mae dewis o 4 ateb ar gyfer pob cwestiwn. Maen nhw'n gallu ailsefyll yr arholiad 3 gwaith. Cyn yr arholiad, ar ôl i bob uned gael ei dysgu cânt eu hasesu a rhoddir llyfryn adolygu iddynt, os ydyn nhw'n gwneud eu gwaith cartref dylen nhw basio'r arholiad. Fodd bynnag, os yw Mr Russell yn teimlo bod angen mwy o help arnynt, bydd yn trafod hyn gyda nhw.

Gofynnodd yr Aelodau a yw cofnodion gyrwyr yn cael eu gwirio cyn iddynt sefyll y cwrs. Dywedodd swyddogion y bydd gyrrwr yn gwneud cais mewn egwyddor, yn cyflwyno'r holl ddogfennau perthnasol, os oes unrhyw beth sy'n peri pryder yna byddai'n mynd i'r Pwyllgor, yna maent yn sefyll y cymhwyster.

Gofynnodd yr Aelodau ble y caiff yr asesiad ei gynnal ac fe'u cynghorwyd bod y cymhwyster yn cael ei asesu yn y ganolfan asesu gyda goruchwylydd yn bresennol. Ychwanegodd swyddogion fod SQA yn defnyddio proses well lle cânt eu hysbysu o flaen llaw ynghylch pryd mae asesiadau'n cael eu cynnal a gallant dalu ymweliad dirybudd.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd cludo anifeiliaid yn rhan o'r cymhwyster a dywedwyd bod hyn yn cael ei gynnwys yn un o'r modiwlau. Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd, os oes gan yrrwr alergedd, yna mae angen iddo roi gwybod am hyn drwy nodyn Doctor ac y byddai'n cael ei eithrio o rai swyddi.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y modiwl ar gludo plant oedran ysgol yn ddiogel a gofynnodd am eglurhad ynghylch a gafodd ei gyflwyno yn 2018 ac a fu adolygiad. Dywedwyd wrth yr Aelodau iddo gael ei gyflwyno yn 2018 a gan ei fod yn gymharol newydd, nid oedd adolygiad wedi'i gynnal hyd yma.

Gofynnodd yr Aelodau am y gyfradd basio ac fe'u cynghorwyd ei bod yn 60% a bod angen cyflawni hyn ar bob modiwl.

Rhoddodd Steven Russell – Pennaeth hyfforddiant a Chwmni Hyfforddi Tacsis Annibynnol (HCACO) anerchiad i'r Pwyllgor ac esboniodd ei fod wedi edrych ar bob Modiwl yn fanwl a'u bod yn ymdrin â phopeth a wnaeth y BTEC ond hefyd wedi ychwanegu Diogelu, Llinellau Sirol a Chamfanteisio ar Blant, a oedd yn bwysig iawn yn ei farn ef. Mae'r cymhwyster wedi'i ddiweddaru ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain a gwahoddodd Mr Russell Aelodau'r Pwyllgor i sefyll y cwrs a gweld sut y caiff ei gyflwyno.

PENDERFYNWYD: Bod, at ddibenion gwneud cais am Drwydded Gyrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Llogi Preifat, Tystysgrif Lefel 2 SQA yn 'Cyflwyniad i Rôl y

Gyrrwr Tacsis a Cherbydau Llogi Preifat' yn cael ei dderbyn fel tystiolaeth foddhaol bod yr ymgeisydd wedi dilyn cwrs hyfforddi addas.

11 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.30 am